OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 633

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

## RHAN 4

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

### PENNOD 2

### Diwygiadau i ddarpariaethau terfynu cymhwystra yn gynnar

**9.** Yn rheoliad 4, ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

"(11A) Nid yw paragraffau (9), (9A), (9B), (10), (10A), (10B), (10C), (10D), (10E) na (10F) yn gymwys pan, ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi—

(a) bo A; neu

(b) bo'r person a achosodd, o ganlyniad i'w statws mewnfudo, i A fod yn fyfyriwr cymwys neu'n fyfyriwr cymhwysol,

yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.".